# Canllawiau ar godau presenoldeb ysgolion

Cyhoeddwyd Medi 2026

DRAFT

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 305/2026
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026
Yn disodli dogfen ganllawiau: WG28364

# Canllawiau ar godau presenoldeb ysgolion

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Ysgolion, awdurdodau lleol a llywodraethwyr ysgolion. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rhestr o godau presenoldeb diwygiedig i'w defnyddio ym mhob ysgol yng Nghymru. |
| **Camau i'w cymryd** | I'w defnyddio'n gyson i gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb ledled Cymru |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cefnogi Mynediad at Addysg<br>Tegwch mewn Addysg<br>Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: CMIA.SATE@llyw.cymru<br><br>@LIC_Addysg<br><br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeiriad y wefan<br>[nodwch gyfeiriad gwefan lle mae modd lawrlwytho'r ddogfen oddi arni] |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Teitl y ddogfen gysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (blwyddyn gyhoeddi) |

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG54010

# Cynnwys


**Cynnwys** 3
**Rhagair y Gweinidog** 2
**Cyflwyniad** 3
**Diben y ddogfen hon** 3
**Yr angen am ddiwygio'r system godau bresennol** 3
**Trosolwg o'r newidiadau: yr effaith ar ffigurau presenoldeb yn yr ysgol** 4
**Adran 1: Newidiadau i'r codau** 6
**Adran 2: Canllawiau newydd ar y codau presenoldeb** 7
**Allwedd i'r codau presenoldeb diwygiedig** 8
**Y codau** 2
**1.Categori ystadegol: presennol** 2
1.1 Cod cofrestru: / \ 2
1.2 Cod cofrestru: L 3
**2. Categori ystadegol: gweithgaredd addysgol cymeradwy** 5
2.1 Cod cofrestru: B 5
2.2 Cod cofrestru: P1 7
2.3 Cod cofrestru: P2 8
2.4 Cod cofrestru: V 8
2.5 Cod cofrestru: W 9
**3. Categori ystadegol: absenoldeb awdurdodedig** 10
3.1 Cod cofrestru: C1 10
3.2 Cod cofrestru: C2 11
3.3 Cod cofrestru: C3 12
3.4 Cod cofrestru: C4 12
3.5 Cod cofrestru: C5 13
3.6 Cod cofrestru: F 14
3.7 Cod cofrestru: H 15
3.8 Cod cofrestru: I1 17
3.9 Cod cofrestru: I2 18
3.10 Cod cofrestru: J1 19
3.11 Cod cofrestru: M 20
3.12 Cod cofrestru: S 21
3.13 Cod cofrestru: E 22
3.14 Cod cofrestru: R 24
3.15 Cod cofrestru: T 25
**4. Categori ystadegol: absenoldeb anawdurdodedig** 27
4.1 Cod cofrestru: N 27
4.2 Cod cofrestru: O 28
4.3 Cod cofrestru: G 28

4.4 Cod cofrestru: U 30

**5. Categori ystadegol: dim rhaid bod yn bresennol 32**

5.1 Cod cofrestru: D 32

5.2 Cod cofrestru: X 33

5.3 Cod cofrestru: Y1 34

5.4 Cod cofrestru: Y2 35

5.5 Cod cofrestru: Y3 35

5.6 Cod cofrestru: Y4 36

5.7 Cod cofrestru: Y5 37

5.8 Cod cofrestru: Z 37

5.9 Cod cofrestru: # 38

# Rhagair y Gweinidog

Mae sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael y cyfle i fynychu'r ysgol yn rheolaidd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae cofnodi cywir yn hanfodol i ddeall patrymau presenoldeb, cefnogi dysgwyr a gwella deilliannau.

Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn nodi'r fframwaith ar gyfer sut mae ysgolion yn cofnodi presenoldeb.

Bydd y diwygiadau i'r codau presenoldeb yn sicrhau eu bod yn glir, yn berthnasol ac yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws pob ysgol yng Nghymru ac yn sicrhau bod ein system cofnodi presenoldeb yn parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr, ysgolion a chymunedau ar draws Cymru.

Lynne Neagle
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

# Cyflwyniad

## Diben y ddogfen hon

Mae'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer casglu data gan Lywodraeth Cymru ar godau presenoldeb fel y nodir yn Neddf Addysg 1996 (adrannau 537A a 538) ynghyd ag Atodlen 2(16) o Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ganlynol hefyd yn darparu ar gyfer darparu a chofnodi gwybodaeth:

- Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2007 yn nodi bod gwybodaeth a restrir yn atodlen 2 i'w darparu gan ysgolion a gynhelir i'w hawdurdodau lleol.
- Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn rhestru'r personau rhagnodedig y gellir darparu'r wybodaeth iddynt.
- Mae rheoliad 6 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn rhagnodi cynnwys y gofrestr bresenoldeb.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru godau presenoldeb newydd yn 2010 ac nid yw'r codau wedi cael eu diwygio ers hynny. Ers 2010 bu pandemig byd-eang a arweiniodd at addysgu dysgwyr o bell ac mae'r pandemig hwn wedi cael ac yn dal i gael effaith sylweddol ar bresenoldeb dysgwyr.

Bu ymholiadau parhaus gan awdurdodau lleol ynghylch y codau a sut i'w defnyddio. Fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig ac mewn ymateb i ymholiadau parhaus, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â swyddogion awdurdodau lleol i adolygu'r codau presennol yng ngoleuni datblygiadau technolegol a modelau cyflawni ac yn bwriadu ymgynghori â phartneriaid mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chymdeithasau proffesiynol i:

i) ystyried y diffygion yn y codau a'r canllawiau presennol;
ii) llunio rhestr ddiwygiedig a chynhwysfawr o godau;
iii) llunio canllawiau atodol ar y codau.

Ceir yn y ddogfen hon restr o'r codau arfaethedig y bydd pob ysgol yng Nghymru yn eu defnyddio.

## Yr angen am ddiwygio'r system godau bresennol

Dyma ein rhesymeg dros ailedrych ar y codau presenoldeb:

i) maent wedi bod yn eu lle ers 2010;
ii) mae angen ymateb i resymau dros absenoldeb yn dilyn pandemig Covid 19;
iii) mae angen rhoi eglurder i awdurdodau lleol ac ysgolion mewn perthynas â dysgu o bell;
iv) mae angen sicrhau safbwynt Llywodraeth Cymru sef bod yr un codau presenoldeb yn cael eu defnyddio ledled Cymru ar gyfer cofnodi gwybodaeth am bresenoldeb.

Byddwn yn cydweithio â chyflenwyr meddalwedd ysgolion i hwyluso'r gwaith o gynnwys y codau mewn pecynnau meddalwedd a ddefnyddir gan ysgolion ar gyfer cofnodi presenoldeb.

Bydd y diwygiadau arfaethedig i'r codau hefyd yn caniatáu mwy o gyfle i ymchwilio ymhellach i'r rhesymau pam y mae disgyblion yn absennol, gan wella'r dulliau o ddiogelu a thracio disgyblion a thrwy hynny caniatáu i ysgolion ac awdurdodau lleol roi strategaethau ar waith i ddelio'n effeithiol â rhwystrau penodol i bresenoldeb.

## Trosolwg o'r newidiadau: yr effaith ar ffigurau presenoldeb yn yr ysgol

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol i'w gweld yn Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010[1] ac mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig wedi'u gwneud yn unol â'r rheoliadau hyn ac felly ni fydd angen unrhyw ddiwygiadau arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau arfaethedig yn categoreiddio'r codau cyfredol yn fwy manwl. Ceir dau newid a fydd yn effeithio ar nodi presenoldeb fel presennol neu absenoldeb awdurdodedig/anawdurdodedig. Y rhain yw bod y cod D bellach yn golygu nad oes rhaid bod yn bresennol yn hytrach na chofrestriad deuol (a oedd yn weithgaredd addysgol cymeradwy) a bod y cod J1 (cyfweliad allanol) bellach yn golygu absenoldeb awdurdodedig yn hytrach na gweithgaredd addysgol cymeradwy.

Rydym wedi cadw'r pum categori ystadegol presennol sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl isod: -

| Categori ystadegol | Codau yn y categori hwn |
|---|---|
| 1. yn bresennol | /\ ac L |
| 2. gweithgaredd addysgol cymeradwy | B, P1, P2, V ac W |
| 3. absenoldeb awdurdodedig | C1, C2, C3, C4, C5, F, H, I1, I2, J1, M, S, E, R a T |
| 4. absenoldeb anawdurdodedig | N, O, G ac U |
| 5. dim rhaid bod yn bresennol | D, X, Y1, Y2, Y3. Y4, Y5, Z a # |

Nid yw'r newidiadau arfaethedig i'r codau wedi effeithio ar y canlynol a oedd yn ofynion o ganlyniad i newidiadau 2010:

- Bydd dal yn ofynnol i ysgolion roi disgyblion ar y gofrestr dderbyn ar y diwrnod cyntaf y maent yn disgwyl i'r disgybl fynychu'r ysgol ar sail cytundeb neu hysbysiad blaenorol ac nid ar y diwrnod y maent yn dod i'r ysgol am y tro cyntaf.

- Os nad yw disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod o absenoldeb, mae dal yn ofynnol i'r ysgol a'r awdurdod lleol ganfod lle yn union y mae'r disgybl hwnnw. Os bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn methu â chanfod lle y mae'r disgybl ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, ac os na fydd y disgybl wedi dychwelyd i'r ysgol am fwy na 10 diwrnod, gall yr ysgol ddileu enw'r disgybl o'r gofrestr dderbyn. Cyn hyn, nid oedd yn ofynnol ceisio canfod lleoliad y disgybl.

- Gall ysgol barhau i ddileu enw disgybl o'r gofrestr dderbyn ar y sail y bu'r disgybl yn absennol heb awdurdod am 20 diwrnod ysgol o leiaf, ac nad oes gan yr ysgol reswm

[1] Diben **Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010** yw sicrhau bod disgyblion yn cael eu cofrestru'n gywir a bod ysgolion yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb.

dros gredu na all y disgybl fynychu'r ysgol oherwydd salwch neu achos arall nad oes modd ei osgoi ac mae'r ysgol a'r awdurdod lleol fel ei gilydd wedi methu canfod lle mae'r disgybl ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol. Cyn hyn, pedair wythnos oedd cyfnod yr absenoldeb anawdurdodedig yn hytrach nag 20 diwrnod ysgol ac nid oedd yn ofynnol i'r ysgol fod â rheswm dros gredu na allai'r disgybl fynychu'r ysgol oherwydd salwch neu reswm arall nad oedd modd ei osgoi.

- Os yw disgybl wedi'i gadw yn y ddalfa o ganlyniad i orchymyn llys am bedwar mis o leiaf ac nad oes gan yr ysgol sail resymol dros gredu y bydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gall yr ysgol barhau i ddileu ei enw o'r gofrestr. Cyn hyn, gallai enw disgybl gael ei ddileu o'r gofrestr petai wedi bod yn absennol am bedair wythnos a'i gadw'n gaeth o ganlyniad i orchymyn llys.

- Mae'r gofyniad i ysgolion hysbysu eu hawdurdod lleol pan fydd enw disgybl yn cael ei ddileu yn parhau. Rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd y sail dros ddileu'r enw wedi'i bodloni a chyn mynd ati i ddileu enw'r disgybl. Yn ogystal â'r gofyniad blaenorol lle bo rhieni yn dewis addysgu eu plant eu hunain, mae'r gofyniad hwn bellach yn gymwys i ddileu enwau:
  - pan fo'r disgybl wedi peidio â mynychu'r ysgol ac nad yw bellach yn byw o fewn pellter rhesymol i'r ysgol. Nid yw hyn yn gymwys yn achos disgyblion preswyl;
  - pan fo swyddog meddygol yr ysgol wedi ardystio bod y disgybl yn annhebygol o fod yn ddigon iach i fynychu'r ysgol cyn y daw i derfyn yr oedran ysgol gorfodol ac nad yw'r disgybl na'i rieni wedi dweud wrth yr ysgol ei fod yn bwriadu parhau â'i addysg ar ôl yr oedran ysgol gorfodol;
  - pan fo'r disgybl wedi'i gadw yn y ddalfa am gyfnod heb fod yn llai na phedwar mis ac nad oes gan yr ysgol sail resymol dros gredu na fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cael ei ryddhau; neu
  - pan fo'r disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol.

- Pan fo cofrestr yr ysgol yn cael ei chadw ar gyfrifiadur, rhaid i'r ysgol wneud copi wrth gefn o'r gofrestr o leiaf unwaith y mis, naill ai'n electronig, ar microfiche neu ar ffurf copi caled wedi'i argraffu . Cyn hyn, roedd yn rhaid i'r copi wrth gefn fod ar ffurf copi caled wedi'i argraffu.

## Adran 1: Newidiadau i'r codau

1. Presennol; /\ ac L – nid oes newidiadau arfaethedig i'r diffiniad o'r codau hyn ond mae'r defnydd o'r codau a'r wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r codau wedi'u hadolygu a'u diweddaru.

2. Gweithgaredd addysgol cymeradwy; B, P1, P2, V ac W – mae newidiadau arfaethedig i'r rhain. Nid yw'r cod D (cofrestriad deuol) yn cael ei gategoreiddio fel gweithgaredd addysgol cymeradwy mwyach ond cynigir ei fod yn cael ei gategoreiddio fel 'dim rhaid bod yn bresennol'. Yn flaenorol, roedd yn rhaid i'r ddwy gofrestr fod yr un peth; ond cynigir nad yw hyn yn angenrheidiol mwyach gyda'r ysgol yn defnyddio cod D ar y diwrnodau lle mae disgwyl i'r plentyn fod mewn lleoliad arall a phresenoldeb ac unrhyw absenoldebau yn cael eu cofnodi gan yr ysgol arall/Uned Cyfeirio Disgyblion ar y diwrnodau hynny. Cynigir bod y cod P yn cael ei rannu i'r codau canlynol: P1 (gweithgaredd chwaraeon cymeradwy) a P2 (gweithgaredd perfformio cymeradwy). Mae'r defnydd o'r codau a'r wybodaeth ychwanegol yn yr holl gategorïau gweithgaredd addysgol cymeradwy wedi'u diwygio.

3. Absenoldeb awdurdodedig: C1, C2, C3, C4, C5, F, H, I1, I2, J, M, S, E, R a T – mae newidiadau arfaethedig i'r rhain. Cynigir bod y cod C ar gyfer absenoldeb awdurdodedig yn cael ei rannu i'r categorïau canlynol: C1 - y cod blaenorol ar gyfer absenoldeb awdurdodedig, C2 - absenoldeb awdurdodedig ar gyfer perfformiad â thâl, C3 - absenoldeb awdurdodedig pan fo pennaeth wedi cytuno i gais gan riant i blentyn gael ei addysgu'n hyblyg, C4 - absenoldeb awdurdodedig ar gyfer amserlen lai, a C5 ar gyfer dysgu o bell lle mae'r dysgu'n cael ei ddarparu ar-lein. Cynigir bod y cod ar gyfer salwch hefyd yn cael ei rannu i I1 ac I2, a fyddai'n caniatáu i ysgolion ddefnyddio cod ar gyfer salwch corfforol a salwch nad yw'n gorfforol. Mae newid arfaethedig i'r Cod J (cyfweliad allanol) hefyd a fyddai bellach yn golygu absenoldeb awdurdodedig yn hytrach na gweithgaredd addysgol cymeradwy. Mae'r defnydd o'r codau a'r wybodaeth ychwanegol yn yr holl gategorïau hyn wedi'u diwygio.

4. Absenoldeb anawdurdodedig: N, O, G ac U - nid oes newidiadau i'r diffiniad o'r codau hyn ond mae'r defnydd ohonynt a'r wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r codau wedi'u diwygio.

5. Dim rhaid bod yn bresennol: D, X, Y1, Y2, Y3. Y4, Y5, Z a # - mae newidiadau arfaethedig i'r rhain. Cynigir nad yw'r cod D (cofrestriad deuol) yn cael ei gategoreiddio fel gweithgaredd addysgol cymeradwy mwyach ond yn cael ei gategoreiddio bellach fel 'dim rhaid bod yn bresennol'. Cynigir bod y cod Y, a oedd gynt yn golygu cau ysgol, yn cael ei rannu i Y1, Y2, Y3, Y4 ac Y5 er mwyn i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros gau ysgolion. Mae'r defnydd o'r codau a'r wybodaeth ychwanegol yn yr holl gategorïau hyn wedi'u diwygio.

## Adran 2: Canllawiau newydd ar y codau presenoldeb

Bydd y canllawiau yn cynorthwyo ysgolion (gan gynnwys ysgolion annibynnol) ac awdurdodau lleol i ddefnyddio'r codau i gofrestru presenoldeb ac absenoldeb disgyblion mewn ysgolion. Maent yn ymwneud â phresenoldeb mewn sesiynau cofrestru statudol yn y bore a'r prynhawn ac yn disodli'r nodiadau cwblhau technegol ar gyfer ysgolion sy'n ategu datganiad presenoldeb ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2003[2], fel y'i diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fod ar agor i ddisgyblion am 190 o ddiwrnodau mewn blwyddyn academaidd neu 380 o sesiynau (hanner diwrnodau).

Gellir defnyddio'r canllawiau ar y cyd â systemau i gofnodi presenoldeb mewn systemau "fesul gwers" ond efallai y bydd angen i ysgolion gofnodi rhesymau eraill yn y math hwn o system.

Fodd bynnag, pan ddefnyddir systemau o'r fath a phan ddefnyddir y wers gyntaf yn y bore neu unrhyw sesiwn yn y prynhawn ar ôl egwyl cinio yn lle sesiwn cofrestru'r bore a sesiwn cofrestru'r prynhawn, mae'n rhaid defnyddio'r codau yn y canllawiau hyn ar gyfer y sesiynau hynny. Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3].

Cred Llywodraeth Cymru mai'r ffordd orau o ddefnyddio'r codau hyn yw mewn systemau electronig ar gyfer cofnodi presenoldeb ac absenoldeb disgyblion. Gall systemau electronig gynhyrchu'r data sydd ei angen ar gyfer y datganiadau absenoldeb i Lywodraeth Cymru heb fod angen cyfrif presenoldeb posibl ac absenoldeb gwirioneddol sy'n cymryd cryn dipyn o amser.

Bydd defnyddio codau penodol yn cynorthwyo ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i fonitro nid yn unig a yw disgyblion yn absennol gyda chaniatâd neu heb ganiatâd yr ysgol, ond pam mae disgyblion yn absennol o'r ysgol. Gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i lunio ymyriadau i fynd i'r afael â phresenoldeb sy'n gwaethygu, presenoldeb gwael, absenoldeb parhaus a materion eraill a ddatgelir gan y data.

---

[2] Diben **Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003** yw sefydlu'r fframwaith ar gyfer strwythur diwrnodau ysgol a blynyddoedd ysgol yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn yn sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol, sydd wedi'i rhannu'n ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol. Mae'r strwythur hwn wedi'i gynllunio i ddarparu isafswm nifer o sesiynau i fyfyrwyr fynychu'r ysgol, gan sicrhau eu bod yn derbyn addysg lawn.

[3] Diben **Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010** yw sicrhau bod disgyblion wedi'u cofrestru'n gywir a bod ysgolion yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb.

## Allwedd i’r codau presenoldeb diwygiedig

Fel y nodwyd eisoes, mae’r codau a argymhellir wedi'u grwpio o dan y pum categori ystadegol canlynol:

- yn bresennol;
- gweithgaredd addysgol cymeradwy (lle ystyrir bod y disgybl yn bresennol);
- absenoldeb awdurdodedig;
- absenoldeb anawdurdodedig;
- dim rhaid bod yn bresennol.

| Cod | Ystyr | Categori ystadegol |
|---|---|---|
| /\ | Yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru | Yn bresennol |
| L | Hwyr ond wedi cyrraedd cyn i’r gofrestr gau | Yn bresennol |
| B | Addysgir oddi ar y safle (nid cofrestriad deuol) | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| P1 | Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd | Gweithgarwch addysgol cymeradwy |
| P2 | Perfformiad a gymeradwywyd | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| V | Ymweliad neu daith addysgol | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| W | Profiad gwaith (nid hyfforddiant seiliedig ar waith) | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| C1 | Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall) | Absenoldeb awdurdodedig |
| C2 | Absenoldeb oherwydd perfformiad â thâl | Absenoldeb awdurdodedig |
| C3 | Disgybl yn cael ei addysgu'n hyblyg | Absenoldeb awdurdodedig |
| C4 | Disgybl ar amserlen ran-amser | Absenoldeb awdurdodedig |
| C5 | Disgybl yn dysgu o bell | Absenoldeb awdurdodedig |
| F | Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd arnynt | Absenoldeb awdurdodedig |
| H | Gwyliau teuluol y cytunwyd arnynt | Absenoldeb awdurdodedig |
| I1 | Salwch corfforol | Absenoldeb awdurdodedig |
| I2 | Salwch nad yw'n gorfforol | Absenoldeb awdurdodedig |
| J1 | Cyfweliad allanol | Absenoldeb awdurdodedig |
| M | Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol | Absenoldeb awdurdodedig |
| S | Absenoldeb astudio | Absenoldeb awdurdodedig |
| E | Wedi'i wahardd ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen | Absenoldeb awdurdodedig |
| R | Diwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig | Absenoldeb awdurdodedig |
| T | Absenoldeb i Deithiwr | Absenoldeb awdurdodedig |
| N | Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb | Absenoldeb anawdurdodedig |
| O | Absenoldeb anawdurdodedig arall (nas cwmpesir gan godau na disgrifiadau eraill) | Absenoldeb anawdurdodedig |

| Cod | Ystyr | Categori ystadegol |
|---|---|---|
| G | Gwyliau teuluol (na chytunwyd arnynt neu sesiynau sy'n ychwanegol) | Absenoldeb anawdurdodedig |
| U | Hwyr ac wedi cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau | Absenoldeb anawdurdodedig |
| D | Cofrestriad deuol (mae'r disgybl yn mynd i leoliad addysg arall) | Dim rhaid bod yn bresennol |
| X | Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Y1 | Cau ysgol yn rhannol oherwydd nad yw'r cludiant arferol ar gael | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Y2 | Cau ysgol yn rhannol oherwydd argyfwng lleol/cenedlaethol/ryngwladol | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Y3 | Cau ysgol yn rhannol oherwydd bod rhan o'r safle allan o ddefnydd | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Y4 | Cau ysgol yn rhannol oherwydd y tywydd | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Y5 | Cau ysgol yn rhannol oherwydd canllawiau/cyfraith yn ymwneud ag haint neu glefyd | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Z | Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto | Dim rhaid bod yn bresennol |
| # | Ysgol ar gau i bob disgybl | Dim rhaid bod yn bresennol |

# Y codau

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010[4] - cynnwys y gofrestr bresenoldeb 6(i)

## 1.Categori ystadegol: presennol

### 1.1 Cod cofrestru: / \

Defnyddir y cod cofrestru /\ i ddangos bod disgybl yn bresennol yn yr ysgol yn ystod cyfnod cofrestru'r ysgol. Mae gan y cod 2 elfen gyda '/' yn golygu bod disgybl yn bresennol yn y bore a '\' yn golygu ei fod yn bresennol yn y prynhawn. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Yn bresennol /=am a \=pm |
| Ystyr ystadegol | Yn bresennol |
| Ystyr cyfreithiol | Yn bresennol |
| Ystyr ffisegol | I mewn am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Ni ddylid nodi bod disgyblion yn bresennol os nad oeddent yn yr ysgol yn ystod y cyfnod cofrestru. Ni ddylid cofnodi bod disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru ar gyfer sesiwn yn ystod y diwrnod ysgol. Byddai hyn yn rhoi'r camargraff bod y disgybl yn bresennol mewn gwersi yn ystod y sesiwn honno, a allai gael canlyniadau diangen.

Cofnodir disgyblion sy'n bresennol mewn cyfleusterau neu ddarpariaeth yn yr ysgol ac eithrio gwersi prif ffrwd, megis unedau cymorth dysgu ac ystafelloedd gwaharddiadau mewnol, yn yr un ffordd â disgyblion eraill, h.y. dylai ysgolion ddefnyddio'r codau arferol os yw'r disgyblion yn bresennol yn y cyfnod cofrestru a'r codau priodol ar gyfer absenoldeb os ydynt yn absennol.

Petai disgybl yn gadael safle'r ysgol ar ôl y cyfnod cofrestru, byddai'n dal i gael ei gyfrif yn bresennol at ddibenion ystadegol.

[4] Diben **Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010** yw sicrhau bod disgyblion wedi'u cofrestru'n gywir a bod ysgolion yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb.

Fel yr amlinellir yn Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010[5], mae'n rhaid cofrestru'r disgyblion yn y prynhawn ar ddechrau neu yn ystod y sesiwn, nid ar ddiwedd y sesiwn flaenorol nac yn ystod yr egwyl rhwng sesiynau. Er eglurder, sesiwn y prynhawn fyddai'r sesiwn gyntaf ar ôl yr egwyl ginio olaf yn hytrach na sesiwn sydd wedi'i threfnu ar gyfer y prynhawn (pm) ond sy'n digwydd cyn cinio. Am resymau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a diogelu plant, mae angen i ysgolion wybod lle mae disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gadael neu'n cyrraedd safle'r ysgol yn ystod sesiwn. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio system bapur yn swyddfa'r ysgol, er enghraifft gofyn i ddisgyblion nodi pan fyddant yn cyrraedd neu'n gadael safle'r ysgol yn ystod y sesiwn. Gall systemau fel "monitro gwersi" hefyd helpu ysgolion i nodi disgyblion sy'n absennol o wersi. Dylai ysgolion sicrhau bod y cofnodion papur hyn yn cael eu bwydo i system reoli'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Efallai y bydd ysgolion am gael codau ychwanegol yn eu systemau "monitro gwersi" i gofnodi lle mae disgyblion pan nad ydynt mewn gwersi prif ffrwd. Mae hyn yn dderbyniol ond ni ellir bwydo'r codau ychwanegol hyn i system cyfrifiad yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylai ysgolion gau'r gofrestr i ddisgyblion heb fod yn hwyrach na 30 munud ar ôl i'r gofrestr gael ei llenwi.

O dan y Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol (Cymru) 2003[6], gall ysgolion bennu amseroedd gwahanol i ddisgyblion gwahanol ar gyfer sesiynau, er enghraifft yn ystod arholiadau cyhoeddus.

**Am resymau'n ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau "Ymateb ar y Diwrnod Cyntaf".**

### 1.2 Cod cofrestru: L

Defnyddir y cod cofrestru L os yw disgybl yn cyrraedd ar ôl i'r sesiwn gofrestru ddechrau ond cyn i'r gofrestr gau. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

---

[5] Diben **Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010** yw sicrhau bod disgyblion wedi'u cofrestru'n gywir a bod ysgolion yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb.
[6] Diben **Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003** yw sefydlu'r fframwaith ar gyfer strwythur diwrnodau ysgol a blynyddoedd ysgol yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn yn sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol, sydd wedi'i rhannu'n ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol. Mae'r strwythur hwn wedi'i gynllunio i ddarparu isafswm nifer o sesiynau i fyfyrwyr fynychu'r ysgol, gan sicrhau eu bod yn derbyn addysg lawn.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Hwyr (cyn i’r gofrestr gau) |
| Ystyr ystadegol | Presennol |
| Ystyr cyfreithiol | Presennol |
| Ystyr ffisegol | Hwyr i'r sesiwn |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r rheoliadau'n amlinellu y dylid cymryd y gofrestr bresenoldeb ar ddechrau pob sesiwn foreol ac unwaith yn ystod pob sesiwn prynhawn (ar ôl yr egwyl cinio olaf yn hytrach na sesiwn a amserlennwyd ar gyfer y prynhawn (pm) ond sy’n digwydd cyn cinio) ac mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylai ysgolion ond gadw’r gofrestr ar agor am 30 munud ar y mwyaf. Wedyn, dylai’r gofrestr gau i ddisgyblion 30 munud ar ôl dechrau'r sesiwn.

Dylai ysgolion annog disgyblion i beidio â chyrraedd yn hwyr a chadw llygad am batrymau cyrraedd yn hwyr. Mewn amgylchiadau eithriadol fel anawsterau'n ymwneud â thrafnidiaeth, gall ysgolion gadw'r gofrestr ar agor am gyfnod hirach. Gall ysgolion hefyd osod amserlenni gwahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

**Am resymau’n ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau “Ymateb ar y Diwrnod Cyntaf”.**

## 2. Categori ystadegol: gweithgaredd addysgol cymeradwy

### 2.1 Cod cofrestru: B

Defnyddir y cod cofrestru B pan fo disgybl sydd ar y gofrestr yn cael ei addysgu oddi ar y safle ar hyn o bryd mewn gweithgaredd dan oruchwyliaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan yr ysgol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Addysgir oddi ar y safle (NID cofrestriad deuol) |
| Ystyr ystadegol | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr cyfreithiol | Mynd i unrhyw weithgaredd addysgol cymeradwy arall |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Gellir defnyddio'r cod hwn ar gyfer pob disgybl sy'n bresennol mewn darpariaeth addysgol a drefnir gan yr ysgol ond nad yw'n digwydd yn yr ysgol. Ni ellir defnyddio'r cod hwn ar gyfer dysgu o bell lle mae'r dysgu yn cael ei gyflwyno ar-lein. Dylai hyn gael ei gwmpasu gan C5 os yw'r dysgu o bell ar-lein yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu mynychu darpariaeth ysgol.

Enghreifftiau o pryd y byddai'r cod hwn yn cael ei ddefnyddio:

- disgyblion sy'n mynychu ysgol arall fel 'disgyblion gwadd' (noder: mae'n rhaid i ddisgybl sy'n mynd i ysgol arall fel rhan o batrwm rheolaidd fod wedi'i gofrestru'n ddeuol – gweler cod D)
- disgyblion sy'n mynychu cwrs prentisiaeth iau neu gyrsiau galwedigaethol mewn coleg
- disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysgol a drefnwyd gan yr ysgol fel rhan o gwricwlwm yr ysgol neu fel rhan o gynnig dysgu ehangach yr ysgol (lle mae'n cael ei darparu'n bersonol ac nid ar-lein)
- disgyblion ar brofiad gwaith fel rhan o gwricwlwm yr ysgol neu fel rhan o gynnig dysgu ehangach yr ysgol.

**DS - dylid cofnodi disgyblion sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith o dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996[7] o dan y cod W.**

Am resymau'n ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith lle gall unrhyw ddarparwr sy'n darparu darpariaeth "oddi ar y safle" hysbysu'r ysgol ddwywaith y dydd am bresenoldeb/absenoldeb disgyblion unigol yn unol â chyfnodau cofrestru'r ysgol fel y gall yr ysgol gofnodi presenoldeb neu absenoldeb y disgybl gan ddefnyddio'r cod absenoldeb perthnasol.

Mae'n rhaid i weithgaredd addysgol cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei gyfer. Ni ddylid defnyddio'r cod hwn pan fydd disgyblion yn mynychu darpariaeth ar safle'r ysgol e.e. darpariaeth cynhwysiant.

**Ni** ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod B ar gyfer sesiynau lle nad oes darpariaeth os oes gan ddisgybl amserlen ran-amser y cytunwyd arni fel rhan o broses ailintegreiddio neu bontio. Mae'r ysgol yn awdurdodi'r absenoldeb ar gyfer y sesiynau pan nad oes rhaid i'r disgybl fod yn yr ysgol a dylid rhoi'r cod C4 ar gyfer y sesiynau hynny.

**Ni** ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn i gofnodi absenoldeb astudio. Mae amser astudio yn amser i ffwrdd o'r ysgol i ddisgyblion gael paratoi heb oruchwyliaeth ar gyfer eu harholiadau cyhoeddus ac mae llawer o ddisgyblion yn trin yr amser hwnnw fel gwyliau ychwanegol ac nid ydynt yn astudio. O ganlyniad, nid yw absenoldeb astudio yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o weithgaredd addysgol cymeradwy. Rhaid defnyddio cod S ar gyfer absenoldeb astudio.

**Ni** ddylai ysgolion ddefnyddio'r cod hwn i gofnodi diwrnodau adolygu disgyblion os mai'r cyfan a wnânt yw anfon disgyblion adref gyda gwaith cartref ac astudio preifat. Yn debyg i absenoldeb astudio nid yw'n cael ei oruchwylio ac fel arfer mae'n cael ei drin fel gwyliau ychwanegol gan ddisgyblion. Felly ni fyddai'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o weithgaredd addysgol cymeradwy. Gellir defnyddio'r cod hwn pan fydd ysgolion wedi trefnu gweithgareddau addysgol dan oruchwyliaeth oddi ar y safle yn lle'r gwersi arferol tra bod cyfweliadau adolygu yn cael eu cynnal.

---

[7] Mae **adran 560 o Ddeddf Addysg 1996** yn ymwneud â gwahardd neu reoleiddio cyflogi plant. Mae'n nodi na fydd y deddfiadau sy'n ymwneud â gwahardd neu reoleiddio cyflogi plant yn gymwys i gyflogaeth plentyn yn ei ddwy flynedd olaf o addysg orfodol os yw'r cyflogaeth yn unol â threfniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol ar ran awdurdod o'r fath, gyda'r bwriad o ddarparu profiad gwaith iddo fel rhan o'i addysg.

**Dim ond pan fydd y gweithgaredd yn digwydd yn bersonol ac yn cael ei gyflwyno gan diwtor/athro a gymeradwywyd gan yr ysgol y gellir defnyddio'r cod B. Mae dal i fod angen marcio disgyblion sy'n absennol o'r ysgol ac sy'n derbyn addysg o bell yn absennol yn y gofrestr gan ddefnyddio'r cod C5.**

## 2.2 Cod cofrestru: P1

Defnyddir y cod cofrestru P1 os yw'r disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon cymeradwy. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Gweithgaredd chwaraeon cymeradwy |
| Ystyr ystadegol | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr cyfreithiol | Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

### Gwybodaeth ychwanegol

Mae'n rhaid i'r gweithgaredd gael ei oruchwylio gan unigolyn a awdurdodwyd o ran hynny gan bennaeth yr ysgol. Mae'n rhaid bod y disgybl yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Ni ddylid trin gwylio mewn digwyddiadau megis dilyn clwb pêl-droed lleol a gorymdeithiau i ddathlu buddugoliaeth mewn chwaraeon fel gweithgaredd addysgol cymeradwy.

Os oes gan ysgolion bryderon ynghylch pa mor briodol yw gweithgaredd, gallant geisio cyngor gan y corff llywodraethu cenedlaethol y chwaraeon dan sylw. Fodd bynnag, pennaeth yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol a dylai ystyried yr effaith ar addysg gyffredinol y disgybl.

Mae'n rhaid i weithgaredd addysgol cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Dylid cofnodi absenoldeb oherwydd amser teithio i gystadlaethau ac oddi yno drwy ddefnyddio’r cod C1 (os cytunwyd gan yr ysgol).

### 2.3 Cod cofrestru: P2

Defnyddir y cod cofrestru P2 os yw'r disgybl yn cymryd rhan mewn perfformiad di-dâl gan blentyn. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Gweithgaredd perfformio cymeradwy |
| Ystyr ystadegol | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr cyfreithiol | Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'n rhaid i'r gweithgaredd gael ei oruchwylio gan unigolyn a awdurdodwyd o ran hynny gan bennaeth yr ysgol. Mae'n rhaid bod y disgybl yn cymryd rhan yn y gweithgaredd.

Os oes gan ysgolion bryderon ynghylch pa mor briodol yw gweithgaredd, gallant ofyn am gyngor gan swyddog yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau perfformio.

Mae'n rhaid i weithgaredd addysgol cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun a gymeradwywyd gan yr ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer. Fodd bynnag, pennaeth yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol a dylai ystyried yr effaith ar addysg gyffredinol y disgybl.

Dylid cofnodi absenoldeb oherwydd amser teithio i ymarferion ac oddi yno drwy ddefnyddio’r cod C1 (os cytunir gan yr ysgol).

### 2.4 Cod cofrestru: V

Defnyddir y cod cofrestru V ar gyfer teithiau ac ymweliadau wedi'u trefnu gan ysgolion, gan gynnwys teithiau preswyl a diwrnodau pontio ysgolion. Gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer teithiau eraill o natur gwbl addysgol, sy'n cael eu trefnu gan sefydliadau eraill, ar yr amod eu bod yn cael eu goruchwylio gan berson sydd wedi'i awdurdodi gan y pennaeth. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Ymweliad neu daith addysgol |
| Ystyr ystadegol | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr cyfreithiol | Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'n rhaid i weithgaredd addysgol cymeradwy gael ei oruchwylio gan rywun o'r ysgol. At hynny mae'n rhaid iddo ddigwydd yn ystod y sesiwn y cofnodir y marc ar ei chyfer.

Pan fydd yr ysgol yn trefnu diwrnodau pontio, rhaid i'r ysgol sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chymryd yn yr ysgol neu gan athro o'r ysgol lle mae'r disgybl ar y gofrestr.

## 2.5 Cod cofrestru: W

Defnyddir y cod cofrestru W ar gyfer profiad gwaith o dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996[8]. Rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn gwirio presenoldeb y disgybl yn y lleoliad profiad gwaith ac yn marcio'r gofrestr yn unol â hynny. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Profiad gwaith |
| Ystyr ystadegol | Gweithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr cyfreithiol | Mynd i weithgaredd addysgol cymeradwy |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

[8] Mae **adran 560 o Ddeddf Addysg 1996** yn ymwneud â gwahardd neu reoleiddio cyflogi plant. Mae'n nodi na fydd y deddfiadau sy'n ymwneud â gwahardd neu reoleiddio cyflogi plant yn gymwys i gyflogaeth plentyn yn ei ddwy flynedd olaf o addysg orfodol os yw'r cyflogaeth yn unol â threfniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol ar ran awdurdod o'r fath, gyda'r bwriad o ddarparu profiad gwaith iddo fel rhan o'i addysg.

Bwriedir profiad gwaith ar gyfer disgyblion yn nwy flynedd olaf addysg orfodol. Ystyrir bod disgybl yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol o ddechrau'r tymor yn ei ysgol sy'n rhagflaenu dechrau'r flwyddyn ysgol pan fyddai'n peidio â bod o oedran addysg orfodol.

**Ni ddylid defnyddio'r cod hwn i gofnodi profiad gwaith fel rhan o gwricwlwm amgen na darpariaeth amgen. Mae'r cyfryw brofiad gwaith yn addysg ddilys "oddi ar y safle" a dylid ei gofnodi gan ddefnyddio'r cod B.**

## 3. Categori ystadegol: absenoldeb awdurdodedig

### 3.1 Cod cofrestru: C1

Defnyddir y cod cofrestru C1 ar gyfer amgylchiadau y cytunwyd arnynt yn ôl disgresiwn yr ysgol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol - mae'r enghreifftiau hyn yn rhai dangosol ac nid ydynt yn gynhwysfawr**

Dim ond amgylchiadau eithriadol a all gyfiawnhau cyfnod o absenoldeb. Dylai ysgolion ystyried pob cais yn unigol gan roi sylw i'r canlynol:

- y math o ddigwyddiad y mae'r disgybl yn ceisio caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol ar ei gyfer
- pa mor aml y mae'n digwydd (a yw'n ddigwyddiad untro, neu a yw'n debygol o fod yn ddigwyddiad rheolaidd?)
- a roddodd y rhiant rybudd ymlaen llaw
- patrwm presenoldeb y plentyn yn gyffredinol.

Gallai enghreifftiau gynnwys amgylchiadau arbennig fel:

- mynd i briodas aelod o'r teulu

- profedigaeth teuluol

- ymweld â rhywun yn y carchar

- gofalwyr ifanc (mewn gwir argyfwng gall ysgol gymeradwyo cyfnod o absenoldeb i blentyn ofalu am berthynas hyd nes y gellir gwneud trefniadau eraill. Dylai'r ysgol bennu terfyn amser ar gyfer y cyfnod o absenoldeb a gosod rhywfaint o waith ysgol fel na fydd y disgybl yn cael ei adael ar ôl tra bydd gartref)

- genedigaeth plentyn - dylid rhoi cymorth i gadw'r disgybl yn yr ysgol lle bynnag y bo modd a'i ddychwelyd i addysg lawnamser cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr enedigaeth. Ni ddylid caniatáu mwy na 18 wythnos o absenoldeb awdurdodedig i ddisgybl sy'n beichiogi ar gyfer y cyfnod yn union cyn ac ar ôl genedigaeth y plentyn. Ar ôl hynny, dylai unrhyw absenoldeb gael ei ystyried yn absenoldeb anawdurdodedig

- methu â mynychu oherwydd bod y disgybl yn destun dedfryd gadw (h.y. bod y disgybl wedi'i gadw yn unol â gorchymyn terfynol a wnaed gan lys neu orchymyn adalw a wnaed gan lys neu'r Ysgrifennydd Gwladol, a bod y gorchymyn hwnnw am gyfnod o ddim llai na 4 mis,  ac nad oes gan y perchennog sail resymol i gredu y bydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw) - disgwylir i ysgolion gyfathrebu â gweithiwr y disgybl yn y Tîm Troseddau Ieuenctid tra bod y disgybl yn y ddalfa ac yn parhau i fod ar gofrestr yr ysgol i drafod anghenion addysgol y disgybl, ei gynnydd a'i ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cael ei ryddhau lle bo'n briodol. Mae addysg yn rhan allweddol o ailsefydlu effeithiol, ac felly mae'n bwysig bod ysgolion yn cadw mewn cysylltiad â'r Tîm Troseddau Ieuenctid trwy gydol y ddedfryd i gefnogi ailsefydlu'r plentyn lle bo'n briodol

- pan fo dysgwyr o oedran ysgol statudol ond yn mynychu darpariaeth blwyddyn 12 ac yn dilyn cyrsiau ôl-TGAU, dylai unrhyw sesiynau lle nad oes angen iddynt fynychu'r ysgol gael eu cwmpasu gan y cod C1 nid y Cod X.

### 3.2 Cod cofrestru: C2

Defnyddir y cod cofrestru C2 ar gyfer amgylchiadau y cytunwyd arnynt yn ôl disgresiwn yr ysgol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Amgylchiadau awdurdodedig eraill, e.e. perfformiadau â thâl |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Pan fydd disgybl yn absennol am ei fod yn cymryd rhan mewn perfformiad â thâl, yr ysgol sy'n dal i benderfynu a ddylid awdurdodi'r absenoldeb hyd yn oed os yw'r disgybl yn cael ei gyflogi o dan drwydded a roddwyd gan yr awdurdod lleol.

### 3.3 Cod cofrestru: C3

Defnyddir y cod cofrestru C3 ar gyfer amgylchiadau y cytunwyd arnynt yn ôl disgresiwn yr ysgol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Amgylchiadau awdurdodedig eraill (e.e addysg hyblyg) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae rhiant wedi gofyn bod ei blentyn yn cael addysg hyblyg, ac mae’r pennaeth wedi cytuno i’r cais.

### 3.4 Cod cofrestru: C4

Defnyddir y cod cofrestru C4 ar gyfer amgylchiadau y cytunwyd arnynt yn ôl disgresiwn yr ysgol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ystyr byr | Amgylchiadau awdurdodedig eraill (e.e amserlen lai, amserlen ail-integreiddio) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Gosodwyd disgybl ar amserlen ran-amser y cytunwyd arni.

Dylai awdurdodau lleol gael polisi ar y defnydd o amserlenni rhan-amser a sicrhau bod mecanweithiau ar waith i sicrhau bod gan yr awdurdod lleol oruchwyliaeth glir o'r holl ddysgwyr sydd ar amserlenni rhan-amser i gefnogi ail-integreiddio i ddarpariaeth lawnamser. Dylai polisi pob awdurdod lleol fod â nodau clir o ran dychwelyd y dysgwyr hyn i ddarpariaeth lawnamser o fewn amserlen ddiffiniedig ac yn unol â'r canllawiau Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi[9] . Ni ddylai hyn fod yn fwy na chyfnod o chwe wythnos yn gyffredinol. Os yw'r ysgol yn dymuno i broses ailintegreiddio barhau am fwy na chwe wythnos, yna dylent drafod y rhesymeg gyda'r awdurdod lleol er mwyn iddynt ystyried a yw hyn er budd gorau'r dysgwr ac a ddylid ystyried darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol hefyd i ategu presenoldeb yn yr ysgol.

### 3.5 Cod cofrestru: C5

Defnyddir y cod cofrestru C5 pan fydd dysgwyr yn cael dysgu ar-lein gan ysgolion/awdurdod lleol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Amgylchiadau awdurdodedig eraill (dysgu o bell ar-lein) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

[9] Mae Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogi: canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr yn ddogfen gynhwysfawr sy'n anelu at wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr yn ddogfen gynhwysfawr sydd â'r nod o wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr mewn lleoliadau addysgol.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Nid yw disgybl yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd rhesymau meddygol/gorbryder sylweddol ac mae'n cael dysgu ar-lein a ddarperir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Dylai pob awdurdod lleol gael nodau clir o ran cefnogi'r dysgwyr hyn a'u galluogi i ddychwelyd yn bersonol i'r ysgol.

Pan nad yw dysgwyr yn gallu mynychu’r ysgol, dylai'r awdurdod lleol gael polisi ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) sy'n amlinellu sut y bydd y garfan hon o ddysgwyr yn cael eu cefnogi. Dylai'r ysgol weithio gyda'r awdurdod lleol i benderfynu a ddylid ystyried darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

**Mae dal i fod angen marcio disgyblion sy'n absennol o'r ysgol ac sy'n derbyn addysg ar-lein yn absennol yn y gofrestr drwy ddefnyddio’r cod C5.**

### 3.6 Cod cofrestru: F

Defnyddir y cod cofrestru F ar gyfer absenoldeb y cytunwyd arno ar gyfer gwyliau teuluol os credir bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau hynny. Ni ddylai rhieni fel arfer fynd â disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor. Rhaid iddynt wneud cais am wyliau cyn ei gymryd. Dylid ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn unigol gan ystyried oedran y plentyn; yr adeg o'r flwyddyn a gynigir ar gyfer y daith; natur y daith a dymuniadau’r rhieni; patrwm presenoldeb cyffredinol y disgybl; a chyfnod addysg a chynnydd y plentyn. Dylai ysgolion wahodd rhieni i drafod unrhyw wyliau arfaethedig yn ystod y tymor.

Dim ond os credir bod amgylchiadau eithriadol y gellir cytuno i absenoldeb o fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol. Os yw'r ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid caniatáu cymeradwyaeth i'r disgybl ar gyfer taith o fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi cymeradwyaeth, a byddai'r absenoldeb yn cael ei awdurdodi a'i gofnodi o dan y cod F. Gellir dileu disgyblion nad ydynt yn dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod i ddiwedd absenoldeb estynedig os yw'r ysgol a'r awdurdod lleol yn methu â dod o hyd iddynt ac nad oes ganddynt reswm da i fod yn absennol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Gwyliau teulu estynedig (gwyliau yn ystod y tymor y cytunwyd arnynt) |

| | |
|---|---|
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r categori hwn ar gyfer cyfnod cyfan o wyliau estynedig lle y cytunodd pennaeth yr ysgol fod amgylchiadau eithriadol.

Bydd disgybl sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau (p'un a gawsant eu hawdurdodi ai peidio) mewn blwyddyn academaidd ond yn bresennol yn yr ysgol am 94.7% o'r amser (ar gyfer ysgolion cynradd). Byddai'r ffigur hwn hyd yn oed yn is ar gyfer disgybl oedran uwchradd sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod y cyfnod o fis Medi i fis Mai.

Os bydd ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau am 10 diwrnod neu lai, mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi (dylid defnyddio’r cod H).

Os na fydd y rhieni yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd, mae'n rhaid cofnodi bod y disgybl yn absennol heb awdurdod gan ddefnyddio’r cod G.

Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (cod G). Os bydd rhieni yn cadw plentyn i ffwrdd am fwy o amser nag y cytunwyd arno, cofnodir unrhyw amser ychwanegol fel absenoldeb anawdurdodedig (cod G). Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r caniatâd hwn a byddai'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig ac yn cael ei gofnodi o dan y cod F. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- rhiant sy'n gweithio dramor am gyfnod tymor canolig penodol
- ymweliad treftadaeth i'w gwlad wreiddiol neu enedigol, gan gynnwys i weld aelodau o’u teulu.

### 3.7 Cod cofrestru: H

Defnyddir y cod cofrestru H ar gyfer absenoldeb y cytunwyd arno ar gyfer gwyliau teuluol os credir bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau hynny. Rhaid i rieni wneud cais ymlaen llaw ar gyfer gwyliau neu deithiau tramor yn ystod y tymor. Dylid ystyried ceisiadau yn unigol, a dylai ysgolion wahodd rhieni i drafod unrhyw gynigion o'r fath ac ystyried oedran y plentyn; yr adeg o'r

flwyddyn a gynigir ar gyfer y daith; natur y daith a dymuniadau'r rhieni; patrwm presenoldeb cyffredinol y disgybl; a chyfnod addysg a chynnydd y plentyn. Dim ond os credir bod amgylchiadau eithriadol y gellir cytuno i absenoldeb o fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol.

Gallai enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol gynnwys: -

- Teuluoedd personél y lluoedd arfog lle nad ydynt yn gallu cymryd gwyliau yn ystod y cyfnod gwyliau ysgol sydd i ddod.
- Rhiant neu blentyn sy'n profi salwch sy'n cyfyngu ar fywyd sy'n gofyn iddynt fynd ar wyliau ar yr adeg honno ac nid yn ystod cyfnod gwyliau ysgol.
- Pan fo rhieni wedi darparu tystiolaeth bod eu patrymau gwaith yn eu hatal rhag cymryd gwyliau yn unol â dyddiadau tymor ysgol cyhoeddedig

Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Gwyliau teuluol (y cytunwyd arnynt) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Bydd disgybl sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau (p'un a ydynt wedi'u hawdurdodi ai peidio) mewn blwyddyn academaidd ond yn bresennol yn yr ysgol am 94.7% o'r amser (ar gyfer ysgolion cynradd). Byddai'r ffigur hwn hyd yn oed yn is ar gyfer disgybl oedran uwchradd sy'n cymryd 10 diwrnod o wyliau yn ystod y cyfnod o fis Medi – Mai (cyfnod arolwg absenoldeb blynyddol Llywodraeth Cymru).

Os bydd ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau am 10 diwrnod neu lai, mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi (dylid defnyddio'r cod H).

Os na fydd y rhieni yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd mae'n rhaid cofnodi bod y disgybl yn absennol heb awdurdod gan ddefnyddio’r cod G, am na all ysgolion roi caniatâd ôl-weithredol.

Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (cod G). Os bydd rhieni yn cadw plentyn i ffwrdd o'r ysgol am fwy o amser nag y cytunwyd arno, cofnodir unrhyw amser ychwanegol fel absenoldeb anawdurdodedig (cod G).

Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r caniatâd hwn a byddai'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig ac yn cael ei gofnodi o dan y cod F.

### 3.8 Cod cofrestru: I1

Defnyddir y cod cofrestru I1 ar gyfer colli cofrestru oherwydd salwch, sy’n absenoldeb awdurdodedig. Os yw disgybl yn bresennol ar gyfer cofrestru ond yn dychwelyd adref oherwydd salwch, nid oes angen cofnodi absenoldeb ar gyfer y sesiwn honno. Dylai ysgolion gadw cofnod o ddisgyblion sy'n gadael neu'n dychwelyd i'r safle rhag ofn y bydd argyfwng. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Salwch corfforol (NID apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol etc) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

### Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r cod hwn i'w ddefnyddio pan fydd rhieni yn ffonio i ddweud bod eu plentyn yn sâl yn gorfforol, hynny yw lle mae'r prif reswm a roddwyd dros yr absenoldeb yn gysylltiedig â salwch corfforol, e.e. byg stumog, salwch heintus, esgyrn wedi torri. Dylid cynghori rhieni bob amser i hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosibl pan fydd plentyn yn sâl.

Er y gall ysgolion ofyn am dystiolaeth feddygol i ategu absenoldeb oherwydd salwch, cynghorir ysgolion i beidio â gofyn am dystysgrifau meddygol yn ddiangen (yn arbennig tystysgrifau ôl-weithredol), yn enwedig os na chafodd y salwch ei drin gan feddyg ar y pryd. Bydd ceisiadau diangen yn rhwystro apwyntiadau meddygon teulu a allai, yn ei dro, arwain at oedi cyn trin eraill ac mae

meddygon yn nodi ei bod yn anodd rhoi tystiolaeth ôl-weithredol, yn enwedig os na chafodd y disgybl ei drin ganddynt hwy. Gall tystiolaeth feddygol fod ar ffurf presgripsiynau golwg, cardiau apwyntiad ac ati yn hytrach na nodiadau meddyg.

Os oes amheuaeth ynghylch a yw salwch yn ddilys neu os na ddarperir tystiolaeth feddygol ar ôl cyfnod addas o amser, gall ysgolion gofnodi'r absenoldeb (cod O) ond rhaid iddynt roi gwybod i'r rhieni am fwriad yr ysgol i ddefnyddio'r cod hwnnw.

Dylid cofnodi bod disgybl sy'n cael triniaeth feddygol ar safle'r ysgol yn 'bresennol'.

Pan fo salwch yn ffactor yn absenoldeb y dysgwr a bu sawl achos o absenoldeb, ac os teimlir nad yw'r rhieni wedi ceisio cymorth meddygol priodol ac mae'r absenoldeb yn parhau, dylid gwneud ymholiad i'r gweithiwr meddygol proffesiynol perthnasol gyda chydweithrediad y rhieni. Hefyd, os nodir salwch fel pyliau ysgafn o asthma, meigryn neu boenau mislif fel rheswm dros absenoldeb mynych neu estynedig, efallai y bydd angen ceisio barn feddygol gan y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol, gan gofio bod cysylltiad yn aml rhwng y cyflyrau hyn a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Pan fo absenoldebau yn dod yn arfer oherwydd patrymau salwch ac mae ysgolion wedi tystio eu bod wedi defnyddio pob ffordd o gefnogi ac ymgysylltu, dylent gyfeirio’r disgybl at yr awdurdod lleol i ystyried darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

**Dylid cofnodi absenoldeb yn ystod y cyfnod cofrestru oherwydd apwyntiad meddygol, apwyntiad deintyddol neu apwyntiad ysbyty drwy ddefnyddio’r cod M.**

### 3.9 Cod cofrestru: I2

Defnyddir y cod cofrestru I2 ar gyfer colli’r cyfnod cofrestru oherwydd salwch, sy’n absenoldeb awdurdodedig. Os bydd disgybl yn bresennol yn y cyfnod cofrestru ond yn dychwelyd adref oherwydd salwch, nid oes angen cofnodi unrhyw absenoldeb ar gyfer y sesiwn honno. Dylai ysgolion gadw cofnod o ddisgyblion sy'n gadael safle'r ysgol neu'n dychwelyd iddo rhag ofn y bydd argyfwng. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Salwch nad yw'n gorfforol, (er enghraifft gorbryder, pryderon emosiynol)<br>(NID apwyntiadau meddygol na deintyddol ac ati) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |

| | |
|---|---|
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r cod hwn i'w ddefnyddio pan fydd rhieni yn ffonio i ddweud bod eu plentyn yn absennol oherwydd salwch nad yw'n gorfforol er enghraifft gorbryder neu bryderon emosiynol. Dylid cynghori rhieni bob amser i hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Er y gall ysgolion ofyn am dystiolaeth feddygol i ategu absenoldeb oherwydd salwch, cynghorir ysgolion i beidio â gofyn am dystysgrifau meddygol yn ddiangen (yn arbennig tystysgrifau ôl-weithredol), yn enwedig os na chafodd y salwch ei drin gan feddyg ar y pryd. Bydd ceisiadau diangen yn rhwystro apwyntiadau meddygon teulu a allai, yn ei dro, arwain at oedi cyn trin eraill ac mae meddygon yn nodi ei bod yn anodd rhoi tystiolaeth ôl-weithredol, yn enwedig os na chafodd y disgybl ei drin ganddynt hwy. Gall tystiolaeth feddygol fod ar ffurf presgripsiynau golwg, cardiau apwyntiad ac ati yn hytrach na nodiadau meddyg.

Os oes amheuaeth a yw salwch yn ddilys neu os na ddarperir tystiolaeth feddygol ar ôl cyfnod addas o amser, gall ysgolion gofnodi'r absenoldeb (cod O) ond rhaid iddynt hysbysu'r rhieni am fwriad yr ysgol i ddefnyddio'r cod hwnnw.

Dylid cofnodi bod disgybl sy'n cael triniaeth feddygol ar safle'r ysgol yn 'bresennol'.

Pan fo salwch yn ffactor yn absenoldeb y dysgwr a bu sawl achos o absenoldeb, ac os teimlir nad yw'r rhieni wedi ceisio cymorth meddygol priodol a bod yr absenoldeb yn parhau, dylid gwneud ymholiad i'r gweithiwr meddygol proffesiynol perthnasol gyda chydweithrediad y rhieni. Yn ogystal, lle mae salwch fel asthma ysgafn, meigryn neu boenau stumog yn cael eu rhoi fel rheswm dros absenoldeb aml neu hir, efallai y bydd angen gofyn am farn feddygol gan y gweithiwr meddygol proffesiynol perthnasol, gan gofio bod cysylltiad yn aml rhwng y rhain a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Pan fo absenoldebau yn dod yn arfer oherwydd patrymau salwch ac mae ysgolion wedi tystio eu bod wedi defnyddio pob ffordd o gefnogi ac ymgysylltu, dylent gyfeirio’r disgybl at yr awdurdod lleol i ystyried darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

**Dylid cofnodi absenoldeb yn ystod y cyfnod cofrestru oherwydd apwyntiad meddygol, apwyntiad deintyddol neu apwyntiad ysbyty drwy ddefnyddio’r cod M.**

### 3.10 Cod cofrestru: J1

Mae’r cod cofrestru J1 ar gyfer cyfweliadau â darpar gyflogwyr neu sefydliad addysgol arall. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Cyfweliad allanol |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Gellid defnyddio'r cod hwn i gofnodi amser a dreuliwyd mewn cyfweliadau â darpar gyflogwyr neu ar gyfer lle mewn sefydliad addysg bellach neu uwch neu ddarparwr hyfforddiant.

Dylai'r ysgol fod yn fodlon bod y cyfweliad yn gysylltiedig â rhagolygon addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol, ac fel arfer dylai'r staff ofyn am rybudd ymlaen llaw a phrawf o'r apwyntiad.

Dylai'r disgybl ofyn am ffurflen i wneud cais am absenoldeb yn ystod y tymor a'i chyflwyno cyn y cyfweliad (ni ellir gofyn am hyn yn ôl-weithredol) er mwyn defnyddio'r cod hwn. Os na chyflwynwyd ffurflen, gall yr ysgol ddefnyddio'r cod O i gofnodi'r absenoldeb.

### 3.11 Cod cofrestru: M

Defnyddir y cod cofrestru M ar gyfer colli’r cyfnod cofrestru i fynd i apwyntiad meddygol neu ddeintyddol, sy’n absenoldeb awdurdodedig.

Dylid annog rhieni a disgyblion i drefnu apwyntiadau y tu allan i oriau'r ysgol. Cynghorir gofyn am weld cadarnhad o apwyntiad.

Os bydd disgybl yn bresennol yn y cyfnod cofrestru ond bod ganddo apwyntiad meddygol yn ddiweddarach, nid oes angen cofnodi unrhyw absenoldeb ar gyfer y sesiwn honno. Dylai ysgolion gadw cofnod o ddisgyblion sy'n gadael safle'r ysgol neu'n dychwelyd iddo rhag ofn y bydd argyfwng.

Os yw disgybl yn cyrraedd o apwyntiad meddygol yn ystod y cyfnod y mae'r **gofrestr dal ar agor**, dylid ei farcio â chod L gan eu bod wedyn yn cael eu hystyried yn bresennol.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Apwyntiadau meddygol/deintyddol |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Am resymau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch mae'n rhaid sicrhau bod system ar waith i gofnodi bod disgybl wedi cyrraedd yr ysgol neu adael y safle yn ystod y sesiwn. Mae apwyntiadau meddygol yn cynnwys:

- mynd i feddygfa;
- mynd i ddeintyddfa;
- apwyntiadau ysbyty/CAMHS (nid arhosiad mewn ysbyty, y dylid defnyddio'r cod **I** ar ei gyfer).

### 3.12 Cod cofrestru: S

Defnyddir y cod cofrestru S ar gyfer absenoldeb astudio, a dylid ei ddefnyddio'n gynnil (uchafswm o 10 diwrnod) a dim ond ar gyfer disgyblion sy'n paratoi ar gyfer arholiadau cyhoeddus. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Absenoldeb astudio (uchafswm o 10 diwrnod) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae llawer o ysgolion yn dewis chwilio am opsiynau eraill yn lle absenoldeb astudio am fod tystiolaeth nad oes gan gyfran fawr o fyfyrwyr y sgiliau i wneud y defnydd gorau o lawer o amser adolygu distrwythur heb ei oruchwylio neu nid ydynt yn tueddu i wneud y defnydd gorau ohono.

Am nad yw absenoldeb astudio yn cael ei oruchwylio ac am na all ysgolion gymryd yn ganiataol iddo digwydd yn ystod y sesiwn ysgol, **nid** yw'r bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer cod B.

Dylai ysgolion gofio fod i unrhyw sesiwn a roddir i ddisgyblion fel absenoldeb astudio ystyr ystadegol absenoldeb awdurdodedig ac y dylai'r ysgol ei gofnodi a'i adrodd fel y cyfryw.

Gan ei bod yn ofynnol i ddisgyblion gael eu cadw ar gofrestr yr ysgol, mae cyfrifoldebau ysgolion ar gyfer pob disgybl yn aros fel y maent. Byddai pob disgybl yn elwa ar gymorth astudio wyneb yn wyneb ac arweiniad gan athrawon yn eu hysgol, yn enwedig grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed fel y rhai a nodwyd yn ôl diffiniad Estyn, ac felly dylid defnyddio absenoldeb astudio yn gynnil yn ystod cyfnod arholiadau.

**Wrth fesur y defnydd o absenoldeb astudio, ac felly absenoldeb awdurdodedig, mae'n rhaid i ysgolion gofio na all disgyblion adael yr ysgol tan y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin. Unwaith y bydd y 10 diwrnod o absenoldeb astudio wedi'u defnyddio, dylid defnyddio codau eraill yn ôl yr angen pan fydd absenoldebau wedi'u hawdurdodi neu'n anawdurdodedig.**

**Ni ddylid marcio disgyblion sy'n bresennol mewn arholiadau gyda’r cod hwn.**

### 3.13 Cod cofrestru: E

Defnyddir y cod cofrestru E ar gyfer disgybl sydd wedi’i wahardd am gyfnod penodol ac sy’n aros ar gofrestr yr ysgol ond ni all ddod i'r ysgol. Mae disgybl sy'n cael ei wahardd yn barhaol yn aros ar gofrestr yr ysgol hyd nes y bydd y broses apelio wedi'i chwblhau.

Dylid trefnu darpariaeth amgen i bob disgybl sydd wedi'i wahardd o'r unfed diwrnod ar bymtheg ar ôl dyddiad y gwaharddiad, ond mae rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn dewis gwneud darpariaeth cyn hynny. Mae absenoldeb oherwydd gwaharddiad cyfnod penodol lle nad oes unrhyw ddarpariaeth amgen wedi'i threfnu yn absenoldeb awdurdodedig am fod yr absenoldeb yn deillio o benderfyniadau a wnaed gan yr ysgol.

Yn yr un modd, dylid trin absenoldeb plentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol na wneir unrhyw ddarpariaeth amgen ar ei gyfer fel absenoldeb awdurdodedig tra bod unrhyw adolygiad neu apêl ar y gweill. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Wedi'i wahardd (ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Defnyddir y cod hwn i gofnodi absenoldeb disgyblion oherwydd:

- eu bod wedi'u gwahardd; **ac**
- na wnaed unrhyw ddarpariaeth i'w galluogi i barhau â'u haddysg tra eu bod wedi'u gwahardd.

Mae'r ysgol yn gyfrifol am wneud trefniadau amgen ar gyfer disgybl sydd wedi'i wahardd sy'n aros ar gofrestr yr ysgol naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd â darparwr darpariaeth amgen y cytunwyd arno. Dyle'r ddarpariaeth hon fod ar gael o'r unfed diwrnod ar bymtheg ar ôl y dyddiad y gwaharddwyd y disgybl yn barhaol a'r unfed diwrnod ar bymtheg o waharddiad cyfnod penodol. Mae canllawiau pellach ar waharddiadau ar gael yn Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion[10].

Mae'r gyfraith yn darparu ar gyfer cofrestru disgyblion mewn mwy nag un lleoliad (cofrestriad deuol). Os yw'r ddarpariaeth amgen a wneir mewn uned cyfeirio disgyblion neu uned wahardd a rennir mewn ysgol arall, dylid cofnodi'r disgybl o dan y cod presenoldeb D.

Pan fo disgybl wedi'i gofrestru yn sefydliad X ac Y, dylai sefydliad X yn marcio'r disgybl fel D (dim rhaid bod yn bresennol) tra bydd yn mynychu sefydliad Y. Mae'r ddau sefydliad yn rhannu'r cyfrifoldeb am y plentyn. Mae methu â mynychu'r ddarpariaeth y cytunwyd arni ar yr adeg briodol yn y sefydliad sy'n disgwyl y disgybl, a hynny heb reswm da yn absenoldeb anawdurdodedig.

[10] Pwrpas Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yw sicrhau bod pob gwaharddiad yn cael ei wneud mewn ffordd deg a chyfartal.

Defnyddir y cod hwn i nodi nad oes rhaid i'r disgybl fod yn bresennol yn yr ysgol y maent wedi'i gofrestru ynddi, ond mae'n rhaid iddo fod yn bresennol yn y sefydliad sy'n darparu'r ddarpariaeth. Y prif enghreifftiau o gofrestriad deuol yw disgyblion sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion, ysgol mewn ysbyty neu *ysgol arbennig dros dro*.

*Yr ysgol y disgwylir i'r disgybl fod yn bresennol ynddi sy'n gyfrifol am gofnodi presenoldeb y disgybl yn gywir ac ymchwilio i unrhyw achos o absenoldeb.*

*Os yw'r ddarpariaeth amgen a wneir mewn uned cyfeirio disgyblion neu uned wahardd a rennir mewn ysgol arall, dylid cofnodi'r disgybl o dan god presenoldeb D am fod y disgybl wedi'i gofrestru yn y ddau sefydliad. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen newid statws cofrestru'r disgybl, fel y'i cofnodir yn System Gwybodaeth Reoli'r ysgol (MIS), o Gofrestriad sengl cyfredol (C) i Brif sefydliad cyfredol (Cofrestriad deuol) (M). Os yw'r disgybl "wedi'i wahardd yn fewnol" neu'n mynd i uned wahardd a rennir o fewn yr ysgol, dylid cofnodi'r presenoldeb gan ddefnyddio'r marciau arferol ar gyfer 'presennol'. Os yw'r ddarpariaeth amgen a wneir yn golygu mynd at unrhyw ddarparwr arall (y cytunwyd arno gan yr awdurdod lleol*), dylid cofnodi'r disgybl o dan y cod B.*

Ym mhob achos lle gwneir darpariaeth amgen ac mae'r disgybl yn absennol, dylid cofnodi'r absenoldeb gan ddefnyddio'r cod cywir gan y darparwr sy'n disgwyl y disgybl a dylai'r cod D gael ei ddefnyddio gan yr ysgol nad yw'n disgwyl y disgybl.

Os cadarnheir gwaharddiad parhaol, dylid dileu enw'r disgybl o gofrestr yr ysgol ar y diwrnod ysgol:

- ar ôl i'r panel apêl gadarnhau bod y disgybl wedi'i wahardd yn barhaol
- pan ddaw'r amser a ganiateir ar gyfer gwneud apeliadau i ben
- ar ôl i'r rhiant gadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n bwriadu apelio
- os yw'r disgybl yn cael lle yn rhywle arall.

### 3.14 Cod cofrestru: R

Defnyddir y cod cofrestru R ar gyfer absenoldeb i gymryd rhan mewn unrhyw ddiwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig gan y corff crefyddol y mae'r rhieni a'r plentyn yn perthyn iddo, gan gynnwys gwyliau crefyddol. Dylid annog rhieni i roi rhybudd ymlaen llaw. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ystyr byr | Defodau crefyddol |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Allan am y sesiwn gyfan |
| Ystyr ffisegol | Absennol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Dehonglir hyn i olygu, os bydd sefydliad crefyddol y rhieni yn nodi bod y diwrnod yn ŵyl grefyddol, fod yn rhaid i'r ysgol awdurdodi'r absenoldeb. Pan fo angen, dylai ysgolion geisio cyngor gan gorff crefyddol y rhieni ynghylch a yw wedi neilltuo'r diwrnod ar gyfer defodau crefyddol.

Os na fydd y corff crefyddol wedi neilltuo'r diwrnod, nid yw'n ofynnol i'r ysgol gymeradwyo'r absenoldeb na chaniatáu cyfnod o absenoldeb. Nid yw gwyliau ychwanegol a diwrnodau i ffwrdd sy'n gysylltiedig â'r ŵyl grefyddol ond nad ydynt "wedi'u neilltuo ar gyfer defodau crefyddol yn unig" gan y corff crefyddol yn cael eu marcio gyda chod R.

Os yw rhieni yn gofyn am wyliau ychwanegol nad ydynt wedi'u neilltuo ar gyfer defodau crefyddol yn unig, dylent gyflwyno cais i'r ysgol am absenoldeb yn ystod y tymor i'r ysgol ei ystyried.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau blynyddol i awdurdodau lleol ar y dyddiadau hyn.

### 3.15 Cod cofrestru: T

Defnyddir y cod cofrestru T os yw plentyn Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn absennol oherwydd bod ei deulu yn teithio ar gyfer gwaith, fel rhan o adran 444(6) o Ddeddf Addysg 1996[11]. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Absenoldeb Sipsiwn, Roma a Theithwyr |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb awdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |

[11] Mae **adran 444(6) o Ddeddf Addysg 1996** yn caniatáu absenoldeb awdurdodedig i ddisgyblion Sipsiwn, Roma, Teithwyr a nomadaidd sy'n teithio gyda'u rhieni ar gyfer gwaith.

| | |
|---|---|
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynnwys sawl grŵp ethnig a diwylliannol. Caiff hyn ei esbonio yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion. Dylai penaethiaid gyfeirio at y canllawiau hyn er mwyn deall pa grwpiau sy'n cael eu cwmpasu gan y term cyffredinol Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT)[12].

I helpu i sicrhau parhad dysgu i blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, caniateir eu cofrestru mewn dau leoliad. Yn yr achos hwn, byddai eu hysgol yn marcio'r disgybl fel D (dim rhaid bod yn bresennol) os ydynt yn mynychu darpariaeth addysgol arall. Mae'r ddwy ysgol yn rhannu'r cyfrifoldeb am y plentyn. Mae methu â mynychu'r ddarpariaeth y cytunwyd arni ar yr adeg briodol yn yr ysgol sy'n disgwyl y disgybl, a hynny heb reswm da yn absenoldeb anawdurdodedig.

Os yw'n hysbys bod teulu'r disgybl yn teithio (gan gynnwys mewn perthynas â gwaith) ac nad yw'r disgybl yn gallu mynd i'r ysgol lle mae wedi'i gofrestru, ond nad yw'n hysbys a yw'r plentyn yn mynd i ddarpariaeth addysgol (mewn ysgol neu gyda darparwr arall), dylid awdurdodi'r absenoldeb a'i gofnodi gan ddefnyddio'r cod T.

Ni all ysgol ddileu plentyn Sipsiwn, Roma a Theithwyr o gofrestr yr ysgol tra bydd yn teithio os mai'r ysgol yw'r ysgol sefydlog.

Os yw'n hysbys bod y disgybl yn absennol o'r ysgol am resymau heblaw am deithio (e.e. salwch, absenoldeb heb ei esbonio), dylid defnyddio'r cod priodol.

Mae'n ofynnol i blant o deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr fynychu'r ysgol. Fodd bynnag, mae amddiffyniad ar gael i deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr os cânt eu herlyn am beidio ag anfon eu plentyn i'r ysgol, ar yr amod bod y plentyn wedi bod yn bresennol mewn ysgol am o leiaf 200 o sesiynau yn ystod y 12 mis sy'n dod i ben pan ddechreuir yr achos cyfreithiol.

[12] Mae **Dathlu a chyfranogi: canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn cefnogi ysgolion ac ymarferwyr addysg i wella profiadau plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg.

## 4. Categori ystadegol: absenoldeb anawdurdodedig

### 4.1 Cod cofrestru: N

Defnyddir y cod cofrestru N os nad oes rheswm dros absenoldeb. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Ni roddwyd unrhyw reswm eto dros yr absenoldeb |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb anawdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Dylid gwneud pob ymdrech i ddarganfod pam roedd y disgybl yn absennol o'r ysgol. Hyd nes y ceir esboniad, mae'n rhaid cofnodi'r absenoldeb gan ddefnyddio’r cod N. Os na roddir unrhyw reswm dros yr absenoldeb o fewn pum diwrnod ysgol a bod ysgolion wedi defnyddio pob ffordd o ymholi, dylid rhoi cod O yn lle cod N a dylai'r ysgol roi gwybod i'r rhiant y bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

Os bydd disgyblion yn absennol yn annisgwyl ac nad yw eu rhieni yn cysylltu â'r ysgol, dylai'r ysgol gysylltu â hwy o dan drefniadau ymateb ar y diwrnod cyntaf.

**Ni ddylid gadael cod N ar gofnod presenoldeb disgybl am fwy na 5 diwrnod ysgol**

**Dylai ysgolion sicrhau fod ganddynt systemau a gweithdrefnau ar waith i ymchwilio i'r achosion hyn o absenoldeb a chadarnhau'r rheswm dros yr absenoldeb, yn ddelfrydol o fewn 5 diwrnod.**

Pan fydd disgybl wedi'i gofnodi fel cod N i ddechrau a newidir hyn wedyn â rheswm dros absenoldeb y disgybl, ystyrir mai'r wybodaeth newydd hon yw'r cofnod cyntaf yn y gofrestr ac nid oes angen cysylltu'r newid o god N gyda'r sawl a wnaeth y newid, pryd na pham. Y rheswm syml yw bod yr wybodaeth newydd ei rhoi. Mae'n rhaid i unrhyw newid arall i unrhyw wybodaeth arall a

gofnodir ar y gofrestr bresenoldeb neu'r gofrestr dderbyn gael ei hategu â manylion y cofnod gwreiddiol a'r cofnod newydd, a'r sawl a wnaeth y newid, pryd a pham.

### 4.2 Cod cofrestru: O

Defnyddir y cod cofrestru O os yw disgybl allan am y sesiwn gyfan. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Absenoldeb anawdurdodedig (nas cwmpesir gan unrhyw god/disgrifiad arall) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb anawdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Dylai ysgolion hysbysu'r rhieni pan fo'r absenoldeb yn anawdurdodedig.

Enghreifftiau:

- pen-blwydd y disgybl/rhiant/brawd neu chwaer/perthynas;
- siopa;
- torri gwallt;
- trît arbennig;
- diwrnod marchnad;
- “Allwn i ddim codi o'r gwely”;
- cau ysgol brawd neu chwaer ar gyfer Hyfforddiant mewn Swydd (neu ddibenion eraill).

### 4.3 Cod cofrestru: G

Mae'r cod cofrestru G yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau teuluol os credir bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau hynny. Dim ond os credir bod amgylchiadau eithriadol y gellir cytuno i absenoldeb o fwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol. Ni

ddylai rhieni fel arfer fynd â disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor a rhaid iddynt wneud cais am y gwyliau cyn ei gymryd. Dylid ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn unigol, gan ystyried oedran y plentyn; yr adeg o'r flwyddyn a gynigir ar gyfer y daith; natur y daith a'i ddymuniadau rhieni; patrwm presenoldeb cyffredinol y disgybl; a chyfnod addysg a chynnydd y plentyn. Dylai ysgolion wahodd rhieni i'r ysgol i drafod unrhyw wyliau arfaethedig yn ystod y tymor. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Gwyliau teuluol (NA chytunwyd arnynt neu ddiwrnodau sy’n ychwanegol at yr hyn y cytunwyd arno) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb anawdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Ni fyddai’r cod G yn briodol yn yr amgylchiadau canlynol

- Teuluoedd personél y lluoedd arfog lle nad ydynt yn gallu cymryd gwyliau yn ystod y cyfnod o wyliau ysgol sydd i ddod.

- Rhiant neu blentyn sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd sy'n gofyn iddynt fynd ar wyliau ar yr adeg honno ac nid yn ystod cyfnod o wyliau ysgol.

- Pan fo rhieni wedi darparu tystiolaeth bod eu patrymau gwaith yn eu hatal rhag cymryd gwyliau yn unol â dyddiadau tymhorau ysgol cyhoeddedig

Os bydd ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau am 10 diwrnod neu lai, mae'n absenoldeb awdurdodedig (defnyddiwch y cod H).

Os na fydd y rhieni yn gwneud cais am gyfnod o absenoldeb cyn ei gymryd, mae'n rhaid cofnodi bod y disgybl yn absennol heb awdurdod gan ddefnyddio’r cod G, am nad yw'r rheoliadau yn caniatáu i ysgolion roi caniatâd ôl-weithredol.

Os na fydd yr ysgol yn caniatáu cyfnod o absenoldeb a bod y disgybl yn mynd ar wyliau, mae'r absenoldeb yn absenoldeb anawdurdodedig (cod G).

Os bydd rhieni yn cadw plentyn i ffwrdd am gyfnod hwy na'r hyn y cytunwyd arno, cofnodir unrhyw amser ychwanegol fel absenoldeb anawdurdodedig (cod G).

Os bydd yr ysgol o'r farn bod amgylchiadau eithriadol pam y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn fynd ar wyliau am fwy na 10 diwrnod, gellir rhoi'r caniatâd hwn a byddai'r absenoldeb yn absenoldeb awdurdodedig ac yn cael ei gofnodi o dan y cod F.

### 4.4 Cod cofrestru: U

Defnyddir y cod cofrestru U os yw hwyr ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben. Dylai ysgolion ymdrechu i annog disgyblion i beidio â bod yn hwyr a chadw llygad am batrymau cyrraedd yn hwyr, a allai ddarparu sail ar gyfer erlyniad. Dylai fod gan ysgolion bolisi ar ba mor hir y dylid cadw cofrestrau ar agor. Ni ddylai'r cyfnod hwn fod yn fwy na 30 munud.

Mewn amgylchiadau eithriadol megis anawsterau'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, gall ysgolion gadw'r gofrestr ar agor am gyfnod hwy.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Hwyr (ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben) |
| Ystyr ystadegol | Absenoldeb anawdurdodedig |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Hwyr i'r sesiwn |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Dylid defnyddio'r cod pan fydd disgybl wedi cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben ac nad oes unrhyw reswm perthnasol dros roi cod arall.

*Enghraifft:*

Os bydd disgybl yn cyrraedd yn hwyr (ar ôl i'r gofrestr gau) oherwydd apwyntiad gyda meddyg neu ddeintydd, byddai'r cod M yn cael ei ddefnyddio.

Os yw disgybl yn cyrraedd yn hwyr (ar ôl i'r gofrestr gau) am na allai ddod o hyd i'w esgidiau / am fod ei wisg ysgol yn sychu yn y peiriant sychu dillad / am fod ei frawd neu chwaer iau yn creu trafferth ac ati, byddai'r cod U yn cael ei ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai ysgolion gau'r gofrestr i ddisgyblion 30 munud ar ôl dechrau'r sesiwn. Mae hefyd yn cynghori ysgolion i beidio â gadael y gofrestr ar agor am y sesiwn gyfan. (Dylid defnyddio'r cod L i gofrestru disgyblion sy'n cyrraedd hyd at 30 munud ar ôl dechrau'r sesiwn a'r cod U ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd ar ôl hynny).

Mae ysgolion/awdurdodau lleol wedi gofyn a oes modd cytuno ar amser ar gyfer cau'r gofrestr. Nid yw hyn yn bosibl oherwydd anghenion unigol pob ysgol a phŵer ysgol i bennu amseroedd gwahanol ar gyfer i ddisgyblion gwahanol ar gyfer sesiynau.

Am resymau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, mae angen i ysgolion wybod lle mae disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gadael neu'n cyrraedd safle'r ysgol yn ystod sesiwn. Gellid gwneud hyn drwy system bapur yn swyddfa'r ysgol i gofnodi bod disgybl wedi cyrraedd safle'r ysgol yn ystod y sesiwn, a bwydo'r wybodaeth i system electronig yr ysgol cyn gynted â phosibl.

O dan Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003[13] fel y'u diwygiwyd, gall ysgolion bennu amseroedd gwahanol ar gyfer sesiynau i ddisgyblion gwahanol, er enghraifft yn ystod arholiadau cyhoeddus, ond mae'n ofynnol iddynt agor am 380 o sesiynau.

**Am resymau'n ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i ysgolion ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau "Ymateb ar y Diwrnod Cyntaf".**

[13] Diben **Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003** yw sefydlu'r fframwaith ar gyfer strwythur diwrnodau ysgol a blynyddoedd ysgol yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn yn sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol, sydd wedi'i rhannu'n ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol. Mae'r strwythur hwn wedi'i gynllunio i ddarparu isafswm nifer o sesiynau i fyfyrwyr fynychu'r ysgol, gan sicrhau eu bod yn derbyn addysg lawn.

## 5. Categori ystadegol: dim rhaid bod yn bresennol

### 5.1 Cod cofrestru: D

Mae'r cod cofrestru D ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn mwy nag un ysgol.

Pan fo disgybl wedi'i gofrestru yn ysgol X ac yn ysgol/lleoliad Y ac yn mynychu ysgol Y. Mae Ysgol X yn rhoi'r cod D ar gyfer y disgybl (dim rhaid bod yn bresennol) tra ei fod yn mynychu ysgol/lleoliad Y ac i'r gwrthwyneb. Mae'r ddau sefydliad yn rhannu'r cyfrifoldeb am y plentyn. Mae methu â mynychu'r ddarpariaeth y cytunwyd arno ar yr adeg briodol pan fydd y darparwr yn disgwyl y dysgwr a hynny heb reswm da yn absenoldeb anawdurdodedig.

Defnyddir y cod hwn i nodi nad yw'n ofynnol i'r disgybl fynd i'r ysgol y mae wedi'i gofrestru ynddi, ond mae'n ofynnol iddo fynd i'r sefydliad sy'n darparu'r ddarpariaeth. Y prif enghreifftiau o gofrestru deuol yw disgyblion sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion, darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ysgol ysbyty neu *ysgol arbennig dros dro*. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Cofrestriad deuol (h.y. mae'r disgybl yn mynd i ysgol/lleoliad addysgol arall) |
| Ystyr ystadegol | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Ystyr cyfreithiol | Dim rhaid bod yn bresennol |
| Ystyr ffisegol | Allan am y sesiwn gyfan |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r gyfraith yn caniatáu i ddisgybl gael ei gofrestru mewn mwy nag un ysgol.

Dylid defnyddio'r cod hwn pan fo disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol mewn dwy ysgol ac nad oes rhaid iddo fod yn bresennol yn eich ysgol chi ar gyfer y sesiwn dan sylw.

Defnyddir y cod hwn i nodi bod y disgybl yn absennol gyda chaniatâd i fynychu'r ysgol arall y maent wedi'i gofrestru ynddi. Y prif enghreifftiau o gofrestru deuol yw disgyblion sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion, darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ysgol ysbyty neu ysgol arbennig dros dro.

Yr ysgol y disgwylir i'r disgybl fod yn bresennol ynddi sy’n gyfrifol am gofnodi presenoldeb y disgybl yn gywir ac ymchwilio i unrhyw achos o absenoldeb.

Dylid cofrestru disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn dwy ysgol fel y cyfryw yn systemau gwybodaeth reoli (MIS) y ddwy ysgol o dan “statws cofrestru disgybl”.

**Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i alluogi'r ysgol lle mae disgwyl i’r disgybl fod yn bresennol hysbysu'r ysgol “arall” am unrhyw absenoldebau fel y gall y ddwy ysgol gofnodi absenoldeb y disgybl gan ddefnyddio'r cod absenoldeb perthnasol. Am resymau'n ymwneud â diogelu plant a rhesymau addysgol, mae'n rhaid i'r ysgol y mae’n ofynnol i'r disgybl ei mynychu ymchwilio i bob absenoldeb heb ei esbonio a phob absenoldeb annisgwyl yn amserol, er enghraifft drwy weithdrefnau “Ymateb ar y Diwrnod Cyntaf”.**

### 5.2 Cod cofrestru: X

Defnyddir y cod cofrestru X ar gyfer sesiynau heb eu hamserlennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Disgyblion nad ydynt wedi cyrraedd pum mlwydd oed ar ddechrau'r tymor y cynhelir y sesiwn neu a oedd yn 16 oed cyn dechrau'r flwyddyn ysgol  y cynhelir y sesiwn. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Absennol |
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i alw'r gofrestr ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol a disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol.

Fodd bynnag, dylai'r cod hwn gael ei ddefnyddio i gofnodi sesiynau na ddisgwylir i blant nad ydynt o oedran ysgol gorfodol fod yn bresennol ynddynt a dylid defnyddio codau safonol i gofnodi categorïau eraill o absenoldeb. Ni fydd hyn yn effeithio ar ystadegau presenoldeb ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, am nad yw Llywodraeth Cymru

yn casglu ystadegau ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Bydd yn helpu ysgolion i nodi'n hawdd pryd mae disgyblion wedi colli gwersi. **Ni ddylid defnyddio'r cod hwn i gofnodi absenoldeb plant o oedran ysgol gorfodol nac unrhyw fath o waharddiad.**

Os bydd ysgol yn rhoi disgybl o oedran ysgol gorfodol ar amserlen ran-amser, er enghraifft fel rhan o broses ailintegreiddio, yna mae'r ysgol yn awdurdodi absenoldeb y disgybl o'r sesiynau nad ydynt ar yr amserlen. Dylid cofnodi'r absenoldeb hwnnw drwy ddefnyddio’r cod C4. Ni ddylai ysgolion osod amserlenni rhan-amser i ddisgyblion am gyfnod amhenodol a dylent fonitro'r defnydd ohonynt.

Os yw disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un ysgol, bydd y disgybl eisoes wedi cael cod D h.y. nid oes rhaid iddo fod yn yr ysgol lle mae wedi'i gofrestru, a byddai'r ysgol y mae'n ei mynychu ar y diwrnod hwnnw yn cofnodi ei bresenoldeb.

**Disgybl ym Mlwyddyn 11 sy’n dilyn amserlenni Blwyddyn 12 eisoes**
Pan fo dysgwyr o oedran ysgol statudol ond yn mynychu darpariaeth blwyddyn 12 ac yn dilyn cyrsiau ôl-TGAU, dylai unrhyw sesiynau lle nad oes angen iddynt fynychu'r ysgol gael eu cwmpasu gan y cod C1 nid y cod X.

**Disgyblion Blwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i Flwyddyn 12 (Chweched Dosbarth)**
O dan y Rheoliadau, ni all ysgolion ddileu disgyblion Blwyddyn 11 sy'n bwriadu aros yn yr ysgol a mynd i'r Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12) o gofrestrau'r ysgol. Unwaith y bydd y disgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol, sef ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin, gellir eu cofnodi gan ddefnyddio'r cod hwn os na fydd yr ysgol wedi gofyn iddynt fod yn bresennol.

## 5.3 Cod cofrestru: Y1

Defnyddir y cod cofrestru Y1 os nad yw plentyn yn gallu mynychu’r ysgol am nad yw'r ysgol o fewn pellter cerdded i gartref y disgybl ac nid yw cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol ac oddi yno. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Gorfod cau ysgol yn rhannol |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol |

| | |
|---|---|
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**
Nid yw'r disgybl yn gallu mynychu’r ysgol oherwydd nad yw'r ysgol o fewn pellter cerdded i'w gartref ac nid yw'r cludiant i'r ysgol ac oddi yno a ddarperir i'r disgybl fel arfer gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol ar gael:

- dysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd ac sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf
- dysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol uwchradd ac sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf.

At ddibenion ystadegol, ni chyfrifir y cod hwn fel presenoldeb posibl.

### 5.4 Cod cofrestru: Y2

Defnyddir y cod cofrestru Y2 os nad yw disgybl yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd tarfu eang ar deithio a achosir gan argyfwng lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Gorfod cau ysgol neu gau ysgol yn rhannol |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol |
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Nid yw'r disgybl yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd tarfu eang ar deithio a achosir gan argyfwng lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. At ddibenion ystadegol, ni chyfrifir y cod hwn fel presenoldeb posibl.

### 5.5 Cod cofrestru: Y3

Defnyddir y cod cofrestru Y3 os yw rhan o adeiladau'r ysgol yn allan o ddefnydd am resymau na ellir eu hosgoi ac ni ellir rhoi lle i'r disgyblion yn y rhannau o'r safle sy'n dal i fod ar agor. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Cau ysgol yn rhannol |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol |
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae rhan o adeiladau'r ysgol yn allan o ddefnydd am resymau na ellir eu hosgoi ac ni ellir rhoi lle i'r disgyblion yn y rhannau o'r safle sy'n dal i fod ar agor. At ddibenion ystadegol, ni chyfrifir y cod hwn fel presenoldeb posibl.

### 5.6 Cod cofrestru: Y4

Defnyddir y cod cofrestru Y4 os yw'r ysgol gyfan ar gau pan oedd yr ysgol i fod i gyfarfod am sesiwn, ond mae'r sesiwn wedi'i chanslo. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| **Cyd-destun** | **Ystyr** |
|---|---|
| Ystyr byr | Gorfod cau ysgol |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol |
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Pan gynlluniwyd i ysgol fod ar agor am sesiwn, ond mae'r ysgol ar gau yn annisgwyl (e.e. oherwydd tywydd garw) ac nid yw'r gofrestr presenoldeb yn cael ei chymryd yn ôl yr arfer oherwydd nad oes sesiwn ysgol. Yn hytrach, mae'n rhaid i bob disgybl sydd wedi'i restru yn y gofrestr derbyn ar y pryd gael ei gofnodi gyda’r cod Y4 i gofnodi'r ffaith bod yr ysgol ar gau.

Ni chaniateir defnyddio'r cod hwn ar gyfer unrhyw adegau pan gynlluniwyd i ysgol fod ar gau, megis penwythnosau neu wyliau.

At ddibenion ystadegol, ni chyfrifir y cod hwn fel presenoldeb posibl.

### 5.7 Cod cofrestru: Y5

Defnyddir y cod Y5 os byddai teithio i'r ysgol neu bresenoldeb yn yr ysgol yn groes i/wedi'i gwahardd gan ganllawiau/cyfraith sy'n ymwneud ag achosion o haint neu glefyd neu drosglwyddo haint neu glefyd. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Gorfod cau ysgol |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Absenoldeb oherwydd amgylchiadau eithriadol |
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**
Mae'r disgybl yn ddigon da i fynd i'r ysgol (neu byddai'r cod I1 wedi'i gofnodi) ond mae rheolau neu ganllawiau ar waith gan y Llywodraeth i gyfyngu ar ledaeniad haint neu glefyd sy'n dweud na ddylai fynd yno.

### 5.8 Cod cofrestru: Z

Defnyddir y cod cofrestru Z at ddibenion gweinyddol ar gyfer disgyblion y disgwylir iddynt ymuno â chofrestr yr ysgol. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Nid yw'r disgybl ar y gofrestr eto |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Nid yw'r disgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol |
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r cod hwn ar gael i alluogi ysgolion i sefydlu eu cofrestrau cyn y disgwylir i ddisgyblion ymuno.

Mae systemau MIS ysgolion yn storio manylion disgyblion y bwriedir eu derbyn mewn “grŵp cyn derbyn” a drosglwyddir wedyn ar ddechrau'r tymor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan ysgolion fanylion am ddisgyblion newydd yn eu system MIS cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn dod i'r ysgol (am eu bod wedi dechrau yn rhywle arall) ond maent yn dal i fod “ar y gofrestr” ar y cyfrifiadur nes y byddant yn cael eu cofnodi fel rhywun sydd wedi gadael yr ysgol. Tra byddant “ar y gofrestr” fel hyn, fe'u dangosir fel disgyblion sy'n absennol “heb awdurdod” oni ellir nodi “nad ydynt ar y gofrestr eto” ar y cyfrifiadur.

O dan Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010[14], rhaid i ysgolion roi disgyblion ar y gofrestr dderbyn ar y diwrnod y mae'r awdurdod derbyn yn rhoi dyddiad dechrau iddynt ac nid pan fyddant yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf, fel o'r blaen. Dylai ysgolion hefyd gofio bod yn rhaid cofnodi enw pob disgybl sydd ar y gofrestr dderbyn ar y gofrestr bresenoldeb hefyd a chofnodi eu presenoldeb.

Os disgwylir i ddisgybl gyrraedd ysgol h.y. mewn “grŵp cyn derbyn”, ond nad yw'n dod i'r ysgol, dylai'r ysgol hysbysu'r awdurdod lleol ar unwaith a marcio’r disgybl gan ddefnyddio’r cod N. Pan fydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn dod o hyd i'r disgybl, dylent farcio'r disgybl yn unol â hynny.

### 5.9 Cod cofrestru: #

Defnyddir y cod cofrestru # ar gyfer achosion lle cynlluniwyd i gau’r ysgol gyfan. Mae'r tabl canlynol yn dangos ystyr y cod mewn gwahanol gyd-destunau.

| Cyd-destun | Ystyr |
|---|---|
| Ystyr byr | Yr ysgol ar gau i ddisgyblion |
| Ystyr ystadegol | Ni chyfrifir mewn presenoldeb posibl |
| Ystyr cyfreithiol | Ni chynhaliwyd unrhyw sesiwn |

[14] Diben **Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010** yw sicrhau bod disgyblion yn cael eu cofrestru’n gywir a bod ysgolion yn cadw cofnodion cywir o bresenoldeb.

| | |
|---|---|
| Ystyr ffisegol | Nid oes angen bod yn yr ysgol |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Dylid defnyddio'r cod hwn ar gyfer achosion lle cynlluniwyd i gau'r ysgol gyfan. Er enghraifft:

- rhwng tymhorau;
- hanner tymhorau;
- diwrnodau achlysurol pan fydd yr ysgol gyfan (gan gynnwys staff) ar wyliau;
- penwythnosau (os yw'n ofynnol gan y system);
- ar gyfer diwrnodau hyfforddiant mewn swydd pan fo athrawon yn y gwaith ond nad ydynt yn addysgu ac nad oes angen i ddisgyblion fod yn bresennol yn yr ysgol;
- unrhyw ddiwrnodau dim cyswllt ychwanegol a ddiffinnir gan reoliadau i'w defnyddio at ddibenion cynllunio cwricwlwm/hyfforddiant;
- defnyddio ysgolion fel gorsafoedd pleidleisio.

**Ni** ddylid defnyddio'r cod hwn ar gyfer achosion lle mae safle ysgol gyfan neu ran ohono yn gorfod cau. Mae'r codau hyn yn cael eu diffinio gan y cod Y priodol.

## Geirfa

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol** - Dyma unrhyw addysg a ddarperir mewn gwahanol leoliadau heblaw amgylcheddau ysgol traddodiadol gan awdurdodau lleol. Gall gynnwys ysgolion mewn ysbytai, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig annibynnol, dysgu ar-lein a darpariaeth drwy sefydliadau trydydd sector.

**Addysg hyblyg** – Addysg hyblyg yw lle mae’r pennaeth yn cytuno i gais gan riant i'w plentyn fynychu'r ysgol yn rhan-amser ac yn cymryd cyfrifoldeb am yr addysg ar y diwrnodau nad yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol.

**Amserlenni rhan-amser** - Dyma lle mae disgyblion yn mynychu ysgolion ar sail rhan-amser yn dilyn cytundeb rhwng yr ysgol, y rhieni a'r disgybl. Mae'r amserlenni rhan-amser hyn yn aml yn cael eu rhoi ar waith ar ôl salwch neu waharddiad i gefnogi'r disgybl i ddychwelyd i'r ysgol ac ail-integreiddio’r disgybl i ddarpariaeth lawnamser.

**CAMHS** (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) – Mae CAMHS yn helpu plant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl.

**Darpariaeth ar-lein** - Mae darpariaeth ar-lein yn ddull hyblyg a chefnogol o ddarparu addysg sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddysgu o bell gyda chysylltiad â'r rhyngrwyd

**HMS** - Mae diwrnodau HMS yn canolbwyntio ar arfogi athrawon a staff cymorth gyda'r sgiliau, yr hyder a'r strategaethau ymarferol i gyflawni'r cwricwlwm.

**MIS** - System wybodaeth rheoli MIS a ddefnyddir gan ysgolion i gefnogi rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

**Uned Cyfeirio Disgyblion** – Dyma fath o ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol sydd angen darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Mae canran uchel o blant sy'n mynychu’r Unedau hyn wedi cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion prif ffrwd, ond gall grwpiau eraill o ddysgwyr megis y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol, mamau beichiog ac yn eu harddegau, disgyblion ag anghenion meddygol, disgyblion yn yr ysbyty, a'r rhai a fyddai'n elwa ar gwricwlwm sy'n gysylltiedig â gwaith hefyd gael mynediad i'r math hwn o ddarpariaeth.

**Ymateb ar y Diwrnod Cyntaf** – Mae’r ysgol yn ymateb ar y diwrnod cyntaf drwy gysylltu â'r rhiant neu’r prif gyswllt i ofyn am reswm dros absenoldeb y plentyn.

**Ysgolion arbennig (annibynnol neu wedi’u cynnal gan ALl) -** Mae ysgolion arbennig yn darparu addysg a chefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol y mae eu hanghenion yn rhy gymhleth neu ddifrifol i'w diwallu'n effeithiol o fewn ysgol brif ffrwd.